**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5 – Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018 am 4.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | E J King |
| E T Kirchner | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: J P Curtice a H M Morris

---

## 31 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 32 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## 33 Sut gall y cyngor fod yn fwy cysylltiedig ynghylch plant a phobl ifanc?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl mai'r dasg oedd ystyried ymrwymiad polisi'r cyngor. Cyfeiriodd at gyflwyniadau blaenorol i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd gyda'r Adolygiad Comisiynu Cefnogaeth i Deuluoedd, y Cynllun Partneriaeth Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a rôl y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol.

Ychwanegodd fod yr awdurdod wedi cofrestru gyda rhwydweithiau arfer da o ran diogelu.

Trafododd yr aelodau bwysigrwydd adborth o ymgynghoriadau gyda gwneuthurwyr polisi ac unigolion y mae angen eu diogelu; cynnwys yr holl gynghorwyr a llywodraethwyr ysgol yn y broses, gan gynnwys yr holl hyfforddiant perthnasol; anghysondeb mewn ysgolion o ran trafod PDG yng nghyfarfodydd llywodraethwyr a'r angen i gynnwys plant â datganiad a phlant ag anableddau corfforol yn y broses.

Cyfeiriodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol at y cyfrifoldeb magu plant corfforaethol a roddir ar lywodraethwyr ac mewn rhai achosion, eu taerineb am ofyn gormod o gwestiynau am unigolion penodol sy'n groes i'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni.

Cyfeiriodd at blant ag anghenion ymlyniad/ymddygiad/gwendidau ychwanegol (gan gynnwys plant wedi'u mabwysiadu) gan holi a oedd ysgolion yn gwneud digon i helpu'r plant hynny. Roedd gofyniad i weithio gyda rhieni, gofalwyr a phobl ddefnyddiol eraill i sicrhau bod yr awdurdod yn gwneud ei orau glas.

Cyfeiriodd y cadeirydd at ymatebion gan ysgolion penodol gan annog yr aelodau i olrhain ymatebion eu hysgolion unigol i'r ymgynghoriad.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** y dylai'r Cyfarwyddwr Pobl baratoi adroddiad sy'n nodi gweithdrefnau/egwyddorion cyfredol o ran cyrff llywodraethu ysgolion a diogelu i'w hystyried yn y cyfarfod ar 21 Chwefror 2018.

## 34 Adolygu Diogelu Corfforaethol

Cyfeiriodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol at archwiliad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau diogelu yng nghynghorau Cymru.

Roedd archwiliad SAC wedi canfod rhai heriau o ran defnyddio cyfrifoldebau diogelu corfforaethol mewn ffordd gydlynol (e.e. trefniadau recriwtio diogel ar waith, cyfrifoldebau diogelu tuag at bobl ifanc yn cael eu cyflawni gan aelodau a swyddogion y cyngor a phresenoldeb fframwaith rheoli perfformiad).

Nodwyd bod y cyngor wedi sgorio'n gymharol dda. Serch hynny, roedd angen mwy o waith ar drefnu gweithdrefnau.

Cyfeiriodd at y Polisi Diogelu Corfforaethol a oedd yn nodi'r holl weithdrefnau hyn yn rhesymegol. Roedd y Grŵp Diogelu Corfforaethol (a gadeiriwyd ar y cyd rhwng Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelod y Cabinet) wedi datblygu e-ddysgu, dangosyddion perfformiad ar gyfer diogelu ac anghenion diogelu ym mhob

maes yn y cyngor. Ailymwelwyd â chysylltiadau i sicrhau bod elfen ddiogelu wedi'i chynnwys yn yr holl wasanaethau a gomisiynwyd.

Roedd disgwyliad pan fyddai'r SAC yn dychwelyd, y byddai'r cyngor yn fwy trefnus.

Nododd fod y polisi wedi'i lunio rai blynyddoedd yn ôl, ac ar yr adeg honno, roedd ymrwymiad y byddai'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Serch hynny, nid oedd y polisi wedi cael ei ddiweddaru ac felly nid oedd y polisi'n adlewyrchu sut roedd pethau wedi symud ymlaen neu pa mor uchelgeisiol yr oedd yr awdurdod hwn o ran canolbwyntio.

Gofynnodd bod gweithgor bach o aelodau'r pwyllgor yn archwilio'r polisi (gyda chymorth Simon Jones, Swyddog Perfformiad) i sicrhau ei fod yn addas at y diben a gwneud argymhellion angenrheidiol i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol i ddatblygu hynny.

Cyfeiriodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol at y cyfyng-gyngor a wynebir er mwyn cael y cydbwysedd cywir. Pe bai camau gweithredu'n rhy ddramatig, roedd risg o orlwytho ein gwasanaethau drws blaen gyda channoedd o atgyfeiriadau a allai chwalu ein system.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Pobl at CCUHP a hawliau plant. Nodwyd bod yr adborth gan ysgolion wedi bod yn gadarnhaol.  Serch hynny, roedd mesur effaith y llwyddiant wedi bod yn heriol. Mae mwy o waith yn cael ei wneud ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth yn y cyd-destun meithrin (grŵp oedran 0 i 5).

Cafwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Plant.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am y canlynol: y broses a rôl Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin; arfer gorau mewn awdurdodau eraill a chysylltu â phobl ifanc, mewn ffordd sy'n hwylus i blant; yr angen i weithio gyda phlant meithrin i gynyddu ymwybyddiaeth; sicrhau bod gwaith y dyfodol yn genedliadol, gan gynnwys pobl ifanc a fyddai'n datblygu'n rhieni.

Nodwyd nad yw'r Polisi Diogelu Corfforaethol presennol yn adlewyrchu'r CCUHP na pholisi'r cyngor. Roedd angen ychwanegiad sy'n nodi uchelgais y cyngor i hyrwyddo diogelwch a lles ymhlith y boblogaeth. Yn y ffordd honno, byddai'n fwy cyson ag uchelgais y cyngor.  Dylai'r cyngor hwn fod yn falch o'i gyflawniadau.

**Penderfynwyd:**

1. Y dylai'r Cynghorwyr C R Doyle, E T Kirchner ac E K Elliott gymryd rhan wrth adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol; a

2. Dylai swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd ddosbarthu Polisi Diogelu'r cyngor.

## 35 Cynllun Gwaith 2017-2018

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017/2018.

**Penderfynwyd:**

1. Gohirio'r Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Dydd a'r Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Preswyl, a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod ar 21 Chwefror 2018, ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol;
2. Cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf o ran arfer presennol cyrff llywodraethu ysgolion ac egwyddorion diogelu;
3. Bydd y Cynghorwyr C R Doyle, E T Kirchner ac E J King yn adrodd yn ôl i gyfarfod y dyfodol ynghylch eu hadolygiad o'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.56pm

**Cadeirydd**